#Ymgysylltu

# Diweddariad 6 Mis

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## Chwefror 2024




**Diolch am eich cefnogaeth**

Os hoffech drafod â’r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi’i wneud o safbwynt cyflawni’r camau gwella hyn, neu unrhyw agweddau eraill o'r arolygon a'r adroddiadau hyn, mae croeso i chi ddod i’n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd ei chynnal ar yr ail ddydd Mawrth, o bron bob mis.
Cadwch lygad ar ein gwefan am fanylion pa gyfleoedd sydd ar y gweill.

**Os yw’n bwysig i chi, yna mae’n bwysig i ni**

# Diolch am eich holl gefnogaeth dros y 6 mis diwethaf

## Mae'r ddogfen hon yn rhannu gwybodaeth â chi am y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed gan ateb yn dilyn yr hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthym mewn arolwg blaenorol.

Isod, fe welwch ein **hadroddiad diweddaru** am yr arolwg canlynol:

➔Ebrill/Mai 2023 — **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

---

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

### Diben yr arolwg hwn:

Ymchwilio a yw ***pob un o'n cwsmeriaid*** yn gallu cael mynediad yn hawdd i'n gwasanaethau ac, os nad ydynt, ym mha ffyrdd y byddai'n well gan ein cwsmeriaid **gael gwybodaeth** gan ateb a **chymryd rhan** yn y cyfleoedd y mae ateb yn eu cynnig i gwsmeriaid.

**Os hoffech weld yr adroddiad llawn gwreiddiol am yr arolwg hwn, cliciwch yma**

### Beth yr ydym wedi'i ddysgu 6 mis yn ddiweddarach?

**Dyma restr o'r camau gwella a bennwyd tua 6 mis yn ôl, a chofnod o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r camau hynny.**

**CAM 1:**

*Ar ôl astudio'r ymatebion i gwestiwn 4, sef "Yn eich barn chi, pa fathau o gyfleoedd a digwyddiadau y dylem fod yn eu darparu i'n cwsmeriaid, fel bod pawb yn cael eu cynnwys?", creu rhestr o newidiadau a allai gael eu gwneud i'r pecyn o gyfleoedd ymgysylltu a gynigir gan y fenter Ymgysylltu i Wella, er mwyn sicrhau cynhwysiant.*

**DIWEDDARIAD:**

Mae'r rhestr wedi'i chreu, gyda chyfraniadau gan staff a chwsmeriaid; mae llawer o'r eitemau sydd ar y rhestr wedi cael sylw, e.e. mae eitemau megis:

- "Eu cynnal ar-lein neu rannu fideos ar Facebook"
- "Allgymorth"
- "Gweithgareddau ar benwythnos/gyda'r nos"
- "Mwy o ddigwyddiadau *Cwrdd â'r Cwmni* i ennyn cefnogaeth"
- "Diwrnodau o hwyl i'r teulu, gyda stondinau sy'n rhoi cyngor"
- "Boreau coffi, cyfarfodydd ag asiantaethau cymdeithasol …"
- "Digwyddiadau cymdeithasol i bobl ifanc a rhai sydd yn eu harddegau"
- "Darparu toiledau"
- "Rhoi mwy o rybudd ynghylch digwyddiadau"

.. wedi cael sylw.

Yn ystod sesiynau'r *Grŵp Cynllunio Arolygon*, cafodd y cynnydd hwn ei drafod â chwsmeriaid. Darparwyd tystiolaeth ein bod wedi cyrraedd y targed trwy chwarae clip fideo, adrodd ynghylch digwyddiadau penodol a dangos arferion gweithio, negeseuon ar y wefan a'r calendr, a thrwy gyfraniadau gan gwsmeriaid yn ystod y sesiwn hon, e.e. "*Rydych chi fel cwmni yn gwneud eich gorau glas i gynnwys pawb — rydych yn gwneud gwaith gwych*." (Cwsmer)

Gofynnodd un cwsmer a oedd pobl ifanc yn cael eu holi'n uniongyrchol am eu barn ynghylch bywyd ar eu hystâd — yr ymateb oedd dangos y bwrdd graffiti, y mae'r holl gwsmeriaid gan gynnwys pobl ifanc yn cael eu hannog i ysgrifennu eu sylwadau arno yn ystod digwyddiadau ateb.  Cafodd y bwrdd graffiti ei greu er mwyn gwneud i bobl deimlo'n gysurus ynghylch eu llawysgrifen a'u mynegiant, gan wahodd pobl o bob oed a gallu i gyfrannu.  Caiff y ddau fwrdd eu casglu ar ddiwedd y digwyddiadau a chaiff yr adborth ei gopïo oddi arnynt.

Roedd y meysydd nad oeddent wedi cael sylw yn cynnwys:

- "Ardaloedd bach, tawel/dim llawer o sŵn/grwpiau bach"
- "Dosbarthiadau gwnïo"
- "Niwroamrywiaeth"
- "Awtistiaeth"

… a chytunwyd nad yw mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhain yn rhan o gylch gorchwyl ateb, ond y gellid defnyddio'r gwasanaethau cysylltu y mae ateb yn eu defnyddio eisoes (e.e.

Cysylltwyr Cymunedol / gwefan ateb sy'n tyfu) i gynorthwyo cwsmeriaid gyda'r anghenion hyn. Awgrymodd un cwsmer yn y sesiwn y gellid mynd â thaflenni asiantaethau nad ydynt yn bresennol mewn digwyddiadau, er mwyn ehangu'r ddarpariaeth.

Cytunwyd bod eitemau megis:

- "pobl sengl ddi-waith a allai fod ar fudd-daliadau"
- "darparu gofal plant/cyfleusterau crèche"

...yn feysydd y gallai ateb wneud mwy o waith arnynt, a'u bod yn waith sydd ar y gweill.

**CAM 2:**

*Adolygu effaith yr Adolygiadau Contractau Meddiannaeth ar ôl y 12 mis cyntaf er mwyn ystyried data ynghylch dymuniadau cwsmeriaid o ran cyfathrebu.*

**DIWEDDARIAD:**

Nid yw ateb wedi dechrau'r adolygiadau eto oherwydd ein bod wedi bod yn adolygu pa ddata y gallwn ei gadw ar ein System Rheoli Tai. Nod ateb yw dechrau'r adolygiadau hyn ym mis Ebrill 2024.

**CAM 3:**

*Ar sail ein menter Iechyd a Lles, ymchwilio ymhellach i'r tueddiadau a'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r adborth a roddodd cwsmeriaid ynghylch pa grwpiau ac asiantaethau y mae ganddynt gysylltiadau â nhw; byddwn yn rhannu â'r cwsmeriaid i gyd, drwy gyfryngau cymdeithasol, yr opsiynau ar gyfer lles yn y dyfodol.*

**DIWEDDARIAD:**

Mae'r arfer o ddarparu opsiynau ar gyfer lles drwy gyfryngau cymdeithasol ar waith erbyn hyn.

**Gweithredu pellach:** Bydd cydlynydd y fenter Ymgysylltu yn ymchwilio ymhellach i dueddiadau a themâu sy'n dod i'r amlwg o adborth cwsmeriaid ynghylch pa grwpiau ac asiantaethau y mae ganddynt gysylltiadau â nhw.

**CAM 4:**

*Cydweithio â'r Cydlynydd Byw gyda Chymorth i nodi'r asiantaethau sy'n darparu cymorth ar hyn o bryd yn ein heiddo byw gyda chymorth a'r rhai sy'n darparu cymorth o ran tai yn Sir Benfro, sydd wedi'u contractio gan Gyngor Sir Penfro i wneud hynny. Yna, byddwn yn darparu gwybodaeth fwy manwl i gwsmeriaid drwy gyfryngau cymdeithasol er mwyn iddynt allu deall pa gymorth sydd ar gael.*

**DIWEDDARIAD:**

Mae'r holl asiantaethau cymorth wedi'u nodi a'u crynhoi; mae rhaglen o negeseuon wedi'i pharatoi ac mae'r rhaglen wedi dechrau cael ei gweithredu, sy'n golygu bod gwybodaeth am yr asiantaethau cymorth hyn yn cael ei rhannu'n gyhoeddus ar dudalen ateb ar Facebook.

**Mae ateb yn darparu tai ar gyfer:**

- Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Hywel Dda (llety hirdymor gyda chymorth ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu)
- Perthyn (llety hirdymor gyda chymorth ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu)
- Pembrokeshire Youth (sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen i fyw'n annibynnol, gan gynnig cymorth yn ôl yr angen a llety gyda chymorth er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n mynd trwy'r cyfnod pontio hwnnw)
- MIND Sir Benfro (sy'n cynnig cymorth o ran iechyd meddwl)
- Adferiad Recovery (sy'n darparu help a chymorth i bobl ag anghenion o ran iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar sylweddau, ac anghenion cymhleth eraill)
- Milford House Centre (sy'n darparu gwasanaethau i gwsmeriaid â phroblemau iechyd meddwl, y mae angen cymorth arnynt)
- Tîm Cymunedau ar gyfer Anableddau Dysgu (sy'n darparu llety hirdymor gyda chymorth ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu)
- Elliots Hill Care Ltd (sy'n darparu llety hirdymor gyda chymorth ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu)
- Gwasanaeth Trais Domestig Calan (sy'n gweithio i greu cymunedau diogel a chydnerth heb drais a cham-drin domestig)

Tynnwyd sylw hefyd at y dudalen ar y wefan sy'n cynnig gwybodaeth i bobl am y cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid o leiafrif ethnig, sef Ein Gwasanaethau — Asiantaethau Cymorth Allanol.

Mae Adran Byw gyda Chymorth ac Adran Gyfathrebu ateb hefyd yn cydweithio i roi peth o'r wybodaeth hon ar wefan ateb.

Nodwyd hefyd y bydd rhestr ar wahân o fudiadau'r trydydd sector a phartneriaid statudol, y mae ateb yn gweithio gyda nhw er mwyn helpu i roi cymorth i gwsmeriaid (heb fod angen atgyfeiriad), ar gael ar wefan ateb cyn bo hir.

### YR HYN YR YDYM WEDI'I DDYSGU:

Er ei bod yn amlwg, o sylwadau gan gwsmeriaid ynghylch hysbysebu digwyddiadau a gwneud digwyddiadau a chyfleoedd yn gynhwysol, bod ateb yn gwneud gwaith da wrth geisio cyrraedd a gwasanaethu amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bobl (dyfyniadau megis "*Rydych chi fel cwmni yn gwneud eich gorau glas i gynnwys pawb — rydych yn gwneud gwaith gwych*" a "*Cafodd fy ngofalwr bob cymorth gan ateb wrth gael mynediad i ddigwyddiadau a'u mynychu*"), roedd hefyd yn amlwg mai gwaith sydd ar y gweill yw hwn a bod angen adeiladu arno'n gyson.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r nodau hyn.**

*Diolch am eich cefnogaeth*

**Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwiliadau hyn.**

***Hoffech chi wybod mwy neu godi mater?***

Anfonwch neges ebost atom: engage@atebgroup.co.uk
Ewch i'n gwefan: **www.atebgroup.co.uk**
Ffoniwch ni**:** 01437 774766 **/** 07500 446611